

**CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDDOGED A MAENAN A GYNHALIWDYD YN GLASDIR, LLANRWST, NOS LUN 15fed o Awst, 2016.**

**PRESENNOL**

Cyng. Nerys Dobson (Cadeirydd), Cyng. Hefin Martin, Cyng. Dewi Wynne Jones, Cyng. Austin Roberts, Delyth Algieri (clerc).

**YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Arwel Ll. Jones, Cyng. Dewi Arfon , Cyng. Alun Morris , Cyng. Eifion Williams, Cyng. John Owen, Cyng. Mike Rayner

**CYDYMDEIMLO**

Ar gychwyn y cyfarfod cododd aelodau'r cyngor ar eu traed fel arwydd o gydymdeimlad o golli cyn aelod o'r Cyngor sef y diweddar Mr William Lloyd.

**Cadarnhau'r Cofnodion**

Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd ar y 4ydd o Orffennaf, 2016.

**Materion yn codi o'r cofnodion**

**1) ARWYDD DIM CŴN**

Angen ail gysylltu gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i gael arwyddion 'Dim Cŵn' yng nghae chwarae Cae Cetyn, Llanddoged.

**CAE CHWARAE MAENAN**

Nododd y Cadeirydd fod y bwrdd picnic yn y cae chwarae Maenan mewn cyflwr gwael . Mi fydd y clerc yn trefnu cael gwared ar bwrdd picnic cyn gynted â phosib.

**MAES PARCIO CADAIR IFAN GOCH**

Diolchodd y Cadeirydd i John Owen am drefnu clirio a thorri gwair ym maes parcio Cadair Ifan Goch, Maenan.

**CYNLLUNIO**

Cais Rhif 0/42968 - Mr Kevin Mc Breeze, Llys yr Enfys, Ffordd Tyrpeg Uchaf, Llanddoged- Porth car/gweithdy arfaethedig newydd gyda stiwdio/ swyddfa gartref, heb gydymffurfio ag amodau rhif 3 o ganiatâd cynllunio rhif 0/40044, i alluogi cael gwared ar ffens / porth presennol.

Pasiwyd i anfon y sylwadau ar y cais cyllunio uchod.

Cais Rhif 0/43019 – Fron Francis, Ffordd Fron Francis, Llanddoged.  
Dymchwel adeilad toiled diffaith a rhoi un llain ychwanegol yn ei le.

Pasiwyd a phenderfynwyd fod dim gwrthwynebiad i'r cais yma.

**PYST GOL PEL DROED CAE CHWARAE CAE CETYN**

Derbyniwyd llythyr gan ddisgybl o Landdoged Carwyn Jones yn gofyn am gael rhwydi ar gyfer y pyst gol peldroed yng Nghae Chwarae Cae Cetyn Llanddoged.

Penderfynwyd i'r Clerc gysylltu gyda Chyngor Conwy i wneud ymholiadau i gael rhwydi ac anfon y mesuriadau i mewn.

### **CYNNAL A CHADW**

1. Angen torri ochr y ffordd a'r gwrychoedd i lawr o Ysgol Maenan i Wigfa Maenan.
2. Tyllau yn y ffordd ar allt yr Abbey hyd at y Felin, Maenan.
3. Ar y ffordd o dan Wigfa Maenan mae y Cyngor wedi concritio ffos ac wedi gadael twill reit ddyfn- pryder y gall cerbyd fynd i'r twll.
4. Cais i'r Adran Pontydd drwsio wal y bont ym Mhont y Garth, Maenan - cais yma wedi cael ei gyfeirio o'r blaen ond heb gael ei drwsio eto.  
Angen trefnu cyfarfod ar y safle gyda Mr Dafydd Rowlands, Cyng. Dewi Wynne Jones a Cyng Austin Roberts i drafod y mater.
5. Angen clirio Llwybr 21 - Nant, Pont y Croes, Llanddoged.
6. Angen gosod yr arwydd Llwybr Cyhoeddus 17 sydd wedi dod i lawr wrth Bont y Garth Maenan yn ei ôl, hefyd angen clirio'r tyfiant wrth y grisiau pen arall y Llwybr cyhoeddus wrth groesffordd Tŷ Uchaf, Maenan.
7. Hefyd oes modd cysylltu gyda'r Adran Llwybrau Cyhoeddus i osod gamfa ar Llwybr Rhif 5 wrth Ty'n y Celyn, Maenan. Mae perchennog Ty'n Celyn Cyng Hefin Martin wedi prynu y gamfa ond mae angen cymorth gan y Cyngor i gael ei gosod.

### **GOHEBIAETH**

1. Llythyr gan Carwyn Jones, Llanddoged.
2. Llythyr gan y Parc Cenedlaethol – cais i roi enw y Cyngor Cymuned ar ei rhestr post.